STATUTORY INSTRUMENTS

1969 No. 258 (L.4)

MAGISTRATES' COURTS

PROCEDURE

The Magistrates' Courts (Welsh Forms) Rules 1969

Made - - -	1*st March* 1969
Laid before Parliament	14*th March* 1969
Coming into Operation	1*st June* 1969

The Lord Chancellor, in exercise of the power conferred on him by section 15 of the Justices of the Peace Act 1949(**a**), as extended by section 122 of the Magistrates' Courts Act 1952(**b**) and section 2 of the Welsh Language Act 1967(**c**), after consultation with the Rule Committee appointed under the said section 15, hereby makes the following Rules :—

1. These Rules may be cited as the Magistrates' Courts (Welsh Forms) Rules 1969 and shall come into operation on 1st June 1969.

2.—(1) In these Rules—

(*a*) "English form" means any form prescribed in the Magistrates' Courts (Forms) Rules 1968(**d**) corresponding to a Welsh form ;

(*b*) "Welsh form" means any form contained in Schedule 1 to these Rules.

(2) The Interpretation Act 1889(**e**) shall apply to the interpretation of these Rules as it applies to the interpretation of an Act of Parliament.

3. Subject to the provisions of these Rules, Welsh forms may be used, with such variations as the circumstances may require, in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire.

4. Both a Welsh and an English form may be included in the same document.

5.—(1) Where only a Welsh form, specified in Part I of Schedule 1 to these Rules, or only the corresponding English form, is used in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire, there shall be added the words in Welsh and English contained in Schedule 2 to these Rules ; and the clerk of the magistrates' court or other person responsible for the service of the form shall, if any person upon whom that form is served so requests, provide him with the corresponding English or Welsh form.

(2) In this Rule any reference to serving a document shall include the sending, giving or other delivery of it.

(**a**) 1949 c.101.
(**b**) 1952 c.55.
(**c**) 1967 c.66.
(**d**) S.I. 1968/1919 (1968 III, p.5075).
(**e**) 1889 c.63.

6. In case of any discrepancy between an English and a Welsh text the English text shall prevail.

Dated 1st March 1969.

Gardiner, C.

SCHEDULE 1 Rule 2

INDEX TO WELSH FORMS

PART I

Forms requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

Number of Form in Magistrates' Courts (Forms) Rules 1968	
2.	Summons to defendant (criminal).
9.	Notice to defendant: proof by written statement.
17—22.	Witness orders.
23.	Notice of provisions of s. 11 of Criminal Justice Act 1967.
29.	Notice to defendant: plea of guilty in absence.
30.	Statement of facts.
31.	Notice of intention to cite previous convictions.
49.	Notice of fine.
55.	Summons to defaulter: fine.
65.	Notice of transfer of fine order.
66.	Notice of order of supervision: fine.
68.	Probation order.
70.	Summons to probationer on application to amend probation order.
71.	Order amending probation order.
72.	Order discharging probation order.
75.	Summons for breach of requirement of probation order.
82.	Summons on commission of further offence during probation period or period of conditional discharge.
89.	Summons on commission of further offence during operational period of suspended sentence.
100.	Summons to defendant (civil).
103.	Order on complaint.
104.	Summons to defaulter: general or special rate.
107.	Summons to defendant: civil debt.
110.	Judgment summons.
114.	Summons to vary, etc., order for periodical payments.
115.	Order varying, etc., order for periodical payments.
117.	Summons to vary sureties, etc.
120.	Notice of recognizance to principal and sureties.
122.	Notice of recognizance to witness.

126.	Notice of enlargement of recognizance.
128.	Summons for forfeiture of recognizance.
129.	Notice of forfeiture of recognizance.
132.	Summons to witness.

PART II

Forms not requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

Number of Form in Magistrates' Courts (Forms) Rules 1968	
3.	Warrant for arrest of defendant in first instance.
6.	Order for taking finger-prints and palm-prints of defendant.
7.	Warrant for arrest of defendant on failure to surrender to bail.
10.	Warrant for arrest of defendant on failure to appear to summons or issued before return date thereof.
14.	Order committing corporation for trial.
26.	Warrant to arrest person indicted.
32.	Warrant for arrest of defendant on failure to appear before evidence has been received.
33.	Warrant for arrest on failure to appear after evidence has been received where defendant at large otherwise than on bail.
35.	Hospital order.
36.	Guardianship order.
37.	Order of dismissal of information.
38.	Order for absolute discharge.
39.	Conviction: imprisonment.
40.	Conviction: fine.
50.	Distress warrant.
56.	Warrant for arrest of defaulter: fine.
60.	Warrant for detention in police cells, etc.
61.	Warrant for detention in police station.
62.	Transfer of fine order.
64.	Further transfer of fine order.
69.	Order for conditional discharge.
76.	Warrant for breach of requirement of probation order.
79.	Order on failure to comply with requirement of probation order.
83.	Warrant on commission of further offence during probation period or period of conditional discharge.
85.	Order in respect of original offence on commission of further offence during probation period or period of conditional discharge.
102.	Order of dismissal of complaint.
105.	Warrant for arrest of defaulter: general or special rate.
108.	Order: civil debt.
111.	Distress warrant: civil debt.
116.	Order of recognizance to keep the peace, etc.
118.	Order varying order for sureties.
119.	Recognizance: general.
121.	Recognizance of witness and surety.
130.	Distress warrant: forfeited recognizance.
133.	Warrant for arrest of witness on failure to appear to summons.
134.	Warrant for arrest of witness in first instance.

Part I

Forms requiring the endorsement in Schedule 2 to the Rules

2

Gwŷs i Ddiffynnydd

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o .

Cyflwynwyd hysbysiaeth heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] ger fy mron i, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, gan eich bod chwi, ar y dydd o fis , 19 , yn yn y [sir] a enwyd uchod [*neu* yn sir] [wedi/yn] (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

Gan hynny gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, gerbron Llys yr Ynadon, a fydd yn eistedd yn , i ateb i'r hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* rhoddwyd y wŷs hon gan yr Ynad Heddwch a enwyd uchod.

C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

9

Hysbysiad i Ddiffynnydd: Profi drwy Ddatganiad Ysgrifenedig

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o .

Ar y dydd o fis , 19 , bydd Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn yn gwrando tystiolaeth ynglŷn â'r cyhuddiad[au] canlynol yn eich erbyn.

Mae'r troseddau hyn yn rhai na ellir eu rhoi ar brawf ond gerbron rheithwyr [*neu* y gellir eu rhoi ar brawf gerbron rheithwyr neu gan Lys yr Ynadon] [*neu* y gellir eu rhoi ar brawf gan Lys yr Ynadon].

Gwnaed datganiadau ysgrifenedig gan y tystion a enwir isod, ac amgaeir copïau o'u datganiadau. Cyflwynir pob un o'r datganiadau hyn yn dystiolaeth gerbron yr ynadon oni fyddwch chwi'n dymuno i'r tyst roi tystiolaeth ar lafar. Os ydych yn dymuno i unrhyw un o'r tystion hyn roi tystiolaeth ar lafar, dylech roi gwybod i mi cyn gynted ag y gellir. [*Os na wnewch hynny cyn pen saith diwrnod ar ôl derbyn yr hysbysiad hwn, ac os rhoir y trosedd[au] ar brawf gan Lys yr Ynadon, fe gollwch yr hawl i rwystro cyflwyno'r datganiad yn dystiolaeth, ac ni chewch alw am i'r tyst ddod i'r Llys heb i chwi gael caniatâd y Llys. Os na roir y trosedd[au] ar brawf gan Lys yr Ynadon, ni fydd y rheol hon ynglŷn ag amser yn dal; ond] os na fyddwch wedi rhoi gwybod i mi fod arnoch eisiau i'r tyst fod yn bresennol, ni fydd ef yn y Llys pan ddewch chwi gerbron yr ynadon, a chollir amser a pheri cost os bydd rhaid galw amdano'r pryd hynny.

†Amgaeir ffurflen ateb [ac amlen] nad oes angen ei stampio, a bydd yn arbed amser a chost os atebwch i ddweud a ydych yn dymuno i unrhyw un o'r tystion hyn roi tystiolaeth ar lafar ai peidio.

Os ydych yn bwriadu ymgynghori â chyfreithiwr ynglŷn â'ch achos, dylech wneud hynny ar unwaith, a rhoi'r hysbysiad hwn a'r datganiadau iddo er mwyn iddo eu trafod.]

Enwau tystion yr amgaeir eu datganiadau—

Cyfeirier unrhyw ateb at:—

(Arwyddwyd).....
[ar ran yr Erlynydd]

*Gadawer allan os na ellir rhoi'r drosedd ar brawf gan Lys Ynadon.
†Gadawer allan os anfonir y papurau at gyfreithiwr y diffynnydd.

17

Gorchymyn Tystiolaeth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At C.D., o .

Rhoddir gorchymyn i chwi drwy hyn i fod yn bresennol [os rhoddir rhybudd i chwi wedi hyn i'r perwyl hwnnw] a rhoi tystiolaeth pan fydd A.B. yn sefyll ei brawf gerbron y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn , neu mewn unrhyw Lys arall yn ôl y cyfarwyddyd a gewch.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn [sir] .
[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

SYLWER—yn ôl adran 3(1) o'r Criminal Procedure (Attendance of Witnesses) Act 1965, gellir cosbi, â charchar hyd at dri mis ac â dirwy, y sawl sydd heb reswm cyfreithlon yn esgeuluso ufuddhau i orchymyn tystiolaeth.

18

Hysbysiad i dyst fod gorchymyn tystiolaeth i'w drin fel gorchymyn amodol

Gan i chwi, C.D., o , dderbyn gorchymyn ar y dydd o fis , 19 , i fod yn bresennol yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , neu mewn unrhyw Lys arall yn ôl unrhyw gyfarwyddyd y byddech yn ei gael, ac yno roi tystiolaeth pan fyddai A.B. yn sefyll ei brawf:

A chan i'r Ynadon Archwilio [wedi hynny gyflwyno A.B. i sefyll ei brawf yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn , ac iddynt] roi cyfarwyddyd fod y gorchymyn hwnnw i chwi i'w drin fel gorchymyn amodol:

HYN SYDD I'CH HYSBYSU NAD oes galw arnoch i fod yn bresennol yn Llys y Prawf oni chewch hysbysiad wedi hyn, yn rhoi cyfarwyddyd i chwi i fod yn bresennol yno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 ,

Y.H.,
Ynad Heddwch yn [sir] .
[*neu* C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

19

Hysbysiad yn rhoi cyfarwyddyd i dyst i fod yn bresennol mewn llys heblaw'r un a enwir yn ei orchymyn tystiolaeth

Gan i chwi, C.D., o , dderbyn gorchymyn ar y dydd o fis , 19 , i fod yn bresennol yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn , neu mewn unrhyw Lys arall yn ôl unrhyw gyfarwyddyd y byddech yn ei gael, i roi tystiolaeth pan fyddai A.B. yn sefyll ei brawf:

HYN SYDD I'CH HYSBYSU nad oes mwyach alw arnoch i fod yn bresennol yn y Llys hwnnw yn , ond rhoddir i chwi drwy hyn gyfarwyddyd a gorchymyn i fod yn bresennol yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn [sir] .
[*neu* C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

20

Hysbysiad i dyst sydd dan orchymyn-tystiolaeth amodol fod y cyhuddedig wedi'i gyflwyno i sefyll ei brawf mewn rhyw lys arall

Gan i chwi, C.D., o , dderbyn gorchymyn ar y dydd o fis , 19 , i fod yn bresennol yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn , neu mewn unrhyw Lys arall yn ôl unrhyw gyfarwyddyd y byddech yn ei gael, i roi tystiolaeth pan fyddai A.B. (a elwir o hyn ymlaen "y cyhuddedig") yn sefyll ei brawf:

A chan fod y cyhuddedig ar ôl hynny wedi'i gyflwyno i sefyll ei brawf yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn :

HYN SYDD I'CH HYSBYSU NA fydd galw arnoch i fod yn bresennol yn y Llys a enwyd gyntaf uchod, ond y gall ddigwydd i chwi gael rhybudd i fod yn bresennol yn y Llys y cyflwynwyd y cyhuddedig iddo i sefyll ei brawf. Ond NI fydd galw arnoch i fod yn bresennol yn Llys y Prawf oni chewch hysbysiad wedi hyn, yn rhoi cyfarwyddyd i chwi fod yn bresennol yno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn [sir] .
[*neu* C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

21

Hysbysiad i dyst na chyflwynwyd y cyhuddedig i sefyll ei brawf

Gan i chwi, C,D., o , dderbyn gorchymyn ar y dydd o fis , 19 , i fod yn bresennol [pe baech yn cael hysbysiad] yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn , i roi tystiolaeth pan fyddai A.B. yn sefyll ei brawf:

HYN SYDD I'CH HYSBYSU fod y Llys wedi penderfynu peidio â chyflwyno A.B. i sefyll ei brawf a chan hynny NAD oes galw arnoch i fod yn bresennol yn y Llys hwnnw i'r pwrpas a enwyd.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn [sir] .
[*neu* C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

22

Hysbysiad yn galw am bresenoldeb tyst sydd dan orchymyn-tystiolaeth amodol

Gan i chwi, C.D., dderbyn gorchymyn drwy orchymyn-tystiolaeth a ddyddiwyd y dydd o fis , 19 , i fod yn bresennol, *pe baech yn cael hysbysiad, yn y Llys a enwyd yn y gorchymyn, ac yno roi tystiolaeth pan fyddai A.B. yn sefyll ei brawf:

HYN SYDD I'CH HYSBYSU FOD galw arnoch i fod yn bresennol yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn , ac i roi tystiolaeth yno yn unol â hynny.

*[*Neu (lle y bo'r Llys wedi rhoi cyfarwyddyd fod y gorchymyn tystiolaeth i'w drin fel gorchymyn amodol, doder i mewn yn lle'r geiriau sy'n dilyn y seren**)* yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , neu mewn unrhyw Lys arall yn ôl y cyfarwyddyd y byddech yn ei gael, i roi tystiolaeth pan fyddai A.B. yn sefyll ei brawf; a chan fod hysbysiad wedi'i roi i chwi wedi hynny na fyddai galw arnoch i fod yn bresennol yn y prawf oni bai i chwi gael hysbysiad;]

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

C.Y.,

Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

SYLWER—Yn ôl adran 3(1) o'r Criminal Procedure (Attendance of Witnesses) Act 1965, gellir cosbi, â charchar hyd at dri mis ac â dirwy, y sawl sydd heb reswm cyfreithlon yn esgeuluso ufuddhau i orchymyn tystiolaeth.

23

Hysbysiad am ofynion adran 11 *o'r Criminal Justice Act* 1967

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o

Os ydych yn dymuno cynnig amddiffyniad drwy alibi pan roddir chwi ar eich prawf dylech ddarllen yr hysbysiad hwn yn ofalus, ac os ydych yn bwriadu ymgynghori â chyfreithiwr dylech ddangos hwn iddo ar unwaith.

Dan adran 11 o'r Criminal Justice Act 1967, pan roir diffynnydd ar ei brawf gerbron rheithwyr, ni chaiff ef heb ganiatâd y llys roi tystiolaeth ei hun, na galw tystion eraill, o blaid alibi os na fydd ef wedi rhoi manylion am yr alibi ac am y tystion yn ôl gofynion yr adran honno. Er mwyn cydymffurfio ag adran 11 rhaid i'r diffynnydd—

1. roi hysbysiad am y manylion yn Llys yr Ynadon (mae'r adeg i wneud hynny wedi mynd heibio yn eich achos chwi) neu *i gyfreithiwr yr erlynydd cyn pen y cyfnod o saith niwrnod o ddiwedd y gweithrediadau yn Llys yr Ynadon ; a*

2. gynnwys yn yr hysbysiad fanylion am yr alibi ac enw a chyfeiriad unrhyw dyst y mae'n bwriadu ei alw i gefnogi'r alibi.

Os yw'r diffynnydd yn methu rhoi enw a chyfeiriad tyst yn ei hysbysiad, rhaid iddo gynnwys ynddo unrhyw wybodaeth sydd ganddo a allai helpu i ddod o hyd i'r tyst, a rhaid iddo wneud popeth sy'n rhesymol er mwyn ceisio darganfod ei enw a'i gyfeiriad. Os oedd enw neu gyfeiriad tyst heb ei gynnwys yn yr hysbysiad, a bod y diffynnydd wedi hynny'n cael gafael ar yr enw neu'r cyfeiriad neu ryw wybodaeth arall a allai helpu i ddod o hyd i'r tyst, rhaid iddo ar unwaith roi gwybod i gyfreithiwr yr erlynydd am yr enw neu'r cyfeiriad neu'r wybodaeth arall.

Os hysbysir y diffynnydd gan yr erlynydd neu ar ei ran ef na allwyd cael gafael ar y tyst wrth yr enw neu yn y cyfeiriad a roddwyd gan y diffynnydd, rhaid i'r diffynnydd roi gwybod ar unwaith i gyfreithiwr yr erlynydd am unrhyw wybodaeth sydd ganddo ar y pryd, neu a ddaw iddo wedi hynny, a allai helpu i ddod o hyd i'r tyst.

Rhaid i bob hysbysiad y mae gofyn i'r diffynnydd ei roi i gyfreithiwr yr erlynydd yn ôl yr uchod fod mewn ysgrifen, a rhaid ei roi i'r cyfreithiwr neu ei adael yn ei swyddfa,

neu ei anfon, wedi ei gyfeirio ato yn ei swyddfa, mewn llythyr wedi'i gofrestru neu gyda'r gwasanaeth derbyniad cofnodedig.

Mae "tystiolaeth o blaid alibi" yn golygu "tystiolaeth sy'n tueddu i ddangos nad oedd y diffynnydd yn y lle yr honnir fod y trosedd wedi'i gyflawni ar yr adeg honno, am ei fod mewn rhyw le arbennig neu mewn rhyw ardal arbennig ar ryw adeg arbennig".

Enw a chyfeiriad cyfreithiwr yr erlynydd yn eich achos chwi yw

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

29

Hysbysiad i Ddiffynnydd: pledio'n euog yn absen

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o

BYDDWCH CYSTAL Â DARLLEN YR HYSBYSIAD HWN YN OFALUS

Os ydych yn cyfaddef y trosedd[au] a enwir yn y wŷs gwysiau a gyflwynir gyda hwn, ac os nad ydych yn dymuno ymddangos gerbron y Llys, y mae'n rhydd i chwi (dan adran 1 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1957) roi gwybod i Glerc y Llys mewn ysgrifen eich bod yn dymuno pledio'n euog i'r cyhuddiad[au] heb ymddangos. Os penderfynwch wneud hynny, dylech sgrifennu at y Clerc o leiaf diwrnod cyn y dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad, i arbed dod â thystion i'r llys heb fod angen. Wrth sgrifennu at y Clerc, dylech nodi unrhyw ystyriaethau lliniarol y dymunwch iddynt gael eu gosod gerbron y Llys. Amgaeir ffurflen y gellwch ei defnyddio ar gyfer sgrifennu at y Clerc.

Os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen, fe ddarllenir y Datganiad[au] Ffeithiau amgaeedig, a'ch datganiad lliniarol chwithau' yn gyhoeddus yn y Llys, cyn i'r Llys farnu a dderbynnir eich ple a gwrando a phenderfynu'r achos yn eich absen. Os na fydd y Llys yn gohirio'r achos ar ôl derbyn eich ple a chyn rhoi dedfryd arnoch (ac os digwydd hynny fe gewch wybod pa bryd ac ym mha le y parheir y gwrandawiad, er mwyn i chwi ymddangos), ni chaniateir i'r erlynydd wneud unrhyw ddatganiad ynglŷn â ffeithiau sy'n ymwneud â'r trosedd[au], heblaw'r Datganiad[au] Ffeithiau.

Os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen, ond y Llys yn penderfynu peidio â derbyn y ple, fe ohirir y gwrandawiad a rhoddir gwybod i chwi pa bryd ac ym mha le y parheir y gwrandawiad. Y pryd hynny fe wrandewir yr achos fel petaech chwi heb sgrifennu i bledio'n euog.

*[Cyflwynir hefyd gyda hwn hysbysiad oddi wrth y Weinyddiaeth Bensiynau ac Yswiriant Gwladol yn hawlio rhai cyfraniadau arbennig Os ydych yn dymuno, nid yn unig bledio'n euog i'r cyhuddiad[au] a enwir yn y wŷs gwysiau ond hefyd gyfaddef eich bod heb dalu'r cyfraniadau a restrir yn yr hysbysiad, neu unrhyw un neu rai ohonynt, y mae'n rhydd ichwi roi gwybod hynny i'r Clerc mewn ysgrifen. Os defnyddiwch y ffurflen amgaeedig i bledio'n euog, gellwch ei defnyddio hefyd i gyfaddef eich bod heb dalu'r cyfraniadau a restrir yn yr hysbysiad.]

Os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen, fe ellwch (os dymunwch hynny) dynnu'r ple yn ôl drwy roi gwybod am hynny i'r Clerc unrhyw adeg cyn y gwrandawiad.

Nid yw'r hysbysiad hwn, nac unrhyw ateb a anfonwch chwi, yn cyfyngu dim ar eich hawl i ymddangos gerbron y Llys ar yr adeg a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad (naill ai yn bersonol neu drwy fargyfreithiwr neu gyfreithiwr), ac i bledio'n euog neu'n ddieuog y pryd hwnnw, fel y mynnoch; os byddwch yn pledio'n euog mewn ysgrifen ac wedyn yn ymddangos felly neu yn rhoi gwybod i'r Clerc cyn y gwrandawiad eich bod yn tynnu'ch ple ysgrifenedig yn ôl, fe wrandewir yr achos fel petaech heb anfon y ple i mewn. Os ydych am fod yn bresennol a phledio'n ddieuog a chwithau eisoes wedi ysgrifennu i bledio'n euog, fe arbedwch oedi a chostau drwy ddweud wrth y clerc ar

unwaith eich bod wedi newid eich meddwl; oni hysbyswch y Clerc mewn digon o amser bydd yn rhaid gohirio'r achos er mwyn i'r erlynwyr allu dod â'u tystion i'r llys.

NODIADAU:

1. Os oes arnoch eisiau rhagor o wybodaeth gellwch ddod i gysylltiad â Chlerc y Llys.

2. Os ydych yn bwriadu ymgynghori â chyfreithiwr, byddai'n ddoeth i chwi wneud hynny cyn gwneud dim arall ynglŷn â'r hysbysiad hwn.

3. Cyfeirier pob llythyr at
Clerc Llys Ynadon

(rhodder yma'r cyfeiriad)

*Na chynhwyser y paragraff hwn ond mewn achosion y mae'n briodol iddynt.

30

Datganiad Ffeithiau

At A.B., o *(rhodder oed a gwaith os ydynt yn hysbys).*

Os byddwch yn rhoi gwybod i Glerc y Llys eich bod yn dymuno pledio'n euog i'r cyhuddiad o , a geir yn y wŷs a gyflwynir gyda hwn, heb i chwi ymddangos gerbron y Llys, ac os bydd y Llys yn gwrando ac yn penderfynu'r achos yn eich absen (dan adran 1 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1957) fe ddarllenir y Datganiad Ffeithiau sy'n dilyn, yn gyhoeddus yn y Llys cyn i'r Llys farnu a dderbynnir eich ple. Os derbynnir eich ple eich bod yn euog, ni fydd y Llys yn caniatáu gwneud unrhyw ddatganiad arall gan yr erlynydd neu ar ei ran ynglŷn ag unrhyw ffeithiau sy'n ymwneud â'r achos, os na fydd y Llys yn gohirio'r achos ar ôl eich euogfarnu a chyn rhoi dedfryd arnoch.

Datganiad Ffeithiau

Arwyddwyd.....
[Ar ran yr Erlynydd.]

31

Hysbysiad am fwriad i enwi euogfarnau cynharach

At A.B., o .

Rhoddir i chwi drwy hyn hysbysiad, os dyfernir chwi'n euog [o unrhyw un] o'r trosedd[au] , y gwysiwyd chwi o'u plegid i ymddangos gerbron Llys Ynadon ar , 19 , y dygir i sylw'r Llys yr euogfarnau a enwir isod, a gofnodwyd yn eich erbyn (ond ni wneir hynny os na ddyfernir chwi'n euog); ac os na fyddwch chwi'n bersonol yn bresennol gerbron y Llys, y gall y Llys gymryd unrhyw un o'r euogfarnau hynny i ystyriaeth fel petaech chwi wedi ymddangos a'i chyfaddef.

Dyddiad yr Euogfarn	Llys	Trosedd	Dedfryd

Arwyddwyd.....
[ar ran y Prif Gwnstabl.]

Os nad ydych yn bwriadu ymddangos yn bersonol adeg y gwrandawiad, ac os ydych yn gwadu unrhyw un o'r euogfarnau uchod, neu unrhyw un o'r manylion ynglŷn â hwy, dylech roi gwybod ar unwaith i [Brif Gwnstabl] yn (*rhodder y cyfeiriad*) fel y galler chwilio ymhellach.

Nid yw unrhyw beth sydd yn yr hysbysiad hwn yn cyfyngu dim ar eich hawl i ymddangos yn bersonol ar y dyddiad a bennwyd ar gyfer y gwrandawiad ac i wadu unrhyw euogfarn a honnir yn eich erbyn.

49

Hysbysiad am Ddirwy

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o .

Dyfarniad

	£	s.	d.
Dirwy ...			
Iawn ...			
Costau ...			
Cyfanswm ...			

Fe'ch dyfarnwyd yn euog heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] gan [*neu* gerbron] Lys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn , (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*), a gorchmynnwyd i chwi dalu'r swm o punt a swllt a ceiniog, fel y dangosir ar ymyl y ddalen hon; a'r swm hwnnw i'w dalu ar unwaith [*neu* erbyn dydd , y dydd o fis , 19] [*neu* yn rhandaliadau wythnosol [*neu* misol] o ,

a'r rhandaliad cyntaf i'w wneud erbyn dydd , y dydd o fis , 19 ,] [a gelwir ar y Llys hwn, dan adran 47(3) o'r Criminal Justice Act 1967 i orfodi'r tâl].

[A phennodd y Brawdlys [*neu* Llys Chwarter] mis o garchar yn gosb os na fyddwch yn talu].

Dylid talu naill ai drwy'r post i mi, Clerc y Llys yn (*rhodder yma'r cyfeiriad*) neu yn bersonol yn (*rhodder yma'r cyfeiriad a hefyd y dyddiau a'r oriau y gellir talu*).

Os na thalwch ar unwaith [*neu* erbyn y dydd [iau] a enwyd], gellir [eich carcharu* am (*enwer y cyfnod*] [*neu* eich restio] neu atafaelu'ch arian a'ch eiddo heb rybudd arall, [oni bai eich bod wedi gofyn am estyn yr amser i dalu, a bod hynny wedi'i ganiatáu i chwi cyn y dydd hwnnw. Gellir gofyn am estyn yr amser, naill ai'n bersonol i'r Llys, neu drwy lythyr, wedi'i gyfeirio ataf i, Clerc y Llys yn (*rhodder yma'r cyfeiriad*), ac yn mynegi'n llawn y rhesymau dros ofyn].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

C.Y.,
Clerc y Llys.

SYLWER—Rhaid stampio'n briodol unrhyw ohebiaeth a anfonir drwy'r post. Ni ddylid anfon arian drwy'r post mewn amlenni heb eu cofrestru.

*Dileër oni fydd Llys yr Ynadon, wrth ddyfarnu'n euog, wedi pennu tymor o garchar (yn unol ag adran 65(2) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952) am beidio â thalu ac wedi gohirio arwyddo'r warant garcharu.

55

Gwŷs i ddiffygdalwr: dirwy

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].
At A.B., o .

	£	s.	d.
Dirwy ...			
Iawn ...			
Costau ...			
Cyfanswm ...			
Taliadau ...			
rhannol ...			
Gweddill ...			

Ar y dydd o fis , 19 , fe ddyfarnwyd gan Lys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn , i chwi dalu'r swm [symiau] a ddangosir ar ymyl y ddalen hon; ac yr ych heb dalu'r swm hwnnw [symiau hynny] [*neu* gweddill o]:

Gan hynny gwysir chwi drwy hyn i ymddangos yn Llys yr Ynadon yn eistedd yn , ar ddydd y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, oni fydd y swm hwnnw [symiau hynny] [*neu'r* gweddill hwnnw] wedi'i dalu cyn hynny, fel y galler holi am eich amgylchiadau.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* rhoddwyd gan , Ynad Heddwch,
C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon.]

SYLWER—Amcan yr ymholiad i'ch amgylchiadau yw galluogi'r Llys i benderfynu a ddylid eich traddodi i garchar am beidio â thalu. Os byddwch heb dalu, ac os na fyddwch yn ymddangos mewn ufudd-dod i'r wŷs hon, gellwch gael eich restio heb hysbysiad arall. Gellir talu naill ai drwy'r post i Glerc y Llys yn (*rhodder yma'r cyfeiriad*) neu'n bersonol yn (*rhodder yma'r cyfeiriad a hefyd y dyddiau a'r oriau y gellir talu*).

Dylid stampio'n briodol unrhyw ohebiaeth a anfonir drwy'r post. Ni ddylid anfon arian mewn amlenni heb eu cofrestru.

65

Hysbysiad am orchymyn trosglwyddo dirwy

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].
At. A.B., o .

	£	s.	d.
Dirwy ...			
Iawn ...			
Costau ...			
Cyfanswm ...			
Taliadau ...			
Gweddill ...			

Ar y dydd o fis , 19 , fe ddyfarnwyd gan Lys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* Llys Chwarter ar gyfer] yn eistedd yn [*neu* gan un o lysoedd awdurdod diannod yr Alban, sef Llys yn ,] i chwi dalu'r swm [symiau] a ddangosir ar ymyl y ddalen hon [mewn rhandaliadau o]; ac mae'r swm hwnnw [symiau hynny] [*neu* gweddill o] yn aros heb ei dalu:

Hysbysir chwi drwy hyn mai mater i Lys yr Ynadon ar gyfer y [Rhanbarth] hwn yw gorfodi talu'r swm hwnnw [symiau hynny] [gweddill hwnnw] bellach, o ganlyniad i orchymyn trosglwyddo dirwy a wnaed ar y dydd o fis , 19 .

Dylid gan hynny dalu'r swm [symiau] [gweddill] hynny ar unwaith [*neu* cyn y dydd o fis , 19 ,] naill ai drwy'r post i mi (*rhodder yma'r enw*), Clerc y Llys yn (*rhodder yma'r cyfeiriad*), neu yn bersonol yn (*rhodder yma'r cyfeiriad a hefyd y dyddiau a'r oriau y gellir talu*).

Os na ellwch dalu, dylech ofyn ar unwaith am estyn ymhellach yr amser i dalu; gellir gofyn naill ai'n bersonol i'r Llys hwn yn (*rhodder yma'r cyfeiriad*) neu drwy lythyr, wedi'i gyfeirio ataf i ac yn mynegi'n llawn y rhesymau dros ofyn.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

C.Y.,
Clerc y Llys.

SYLWER—Rhaid stampio'n briodol unrhyw ohebiaeth a anfonir drwy'r post. Ni ddylid anfon arian drwy'r post mewn amlenni heb eu cofrestru.

66

Hysbysiad am orchymyn goruchwyliad: dirwy

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o .

	£	s.	d.
Dirwy ...			
Iawn ...			
Costau ...			
Cyfanswm ...			
Taliadau rhannol ...			
Gweddill ...			

Fe ddyfarnwyd heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] gan Lys yr Ynadon yn eistedd yn , i chwi dalu'r swm [symiau] a ddangosir ar ymyl y ddalen hon [ac yr ych heb dalu'r swm [symiau] hynny [*neu* gweddill o]].

Hysbysir chwi drwy hyn eich bod heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] wedi'ch gosod drwy orchymyn y Llys hwn dan oruchwyliad hyd nes y telir y swm [symiau] [*neu* gweddill] hynny neu y gwneir gorchymyn arall, [a bod y swm [symiau] [*neu* gweddill] hynny i'w dalu yn rhandaliadau wythnosol , a'r rhandaliad cyntaf i'w wneud ar unwaith].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

C.Y.,
Clerc y Llys.

68

Gorchymyn profiannaeth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Heddiw [gan iddo gytuno i sefyll ei brawf mewn llys ynadon,] dyfarnwyd A.B. [a elwir yma wedi hyn y diffynnydd] yn euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

Ac y mae'r Llys o'r farn, ar ôl ystyried yr amgylchiadau gan gynnwys natur y trosedd a chymeriad y diffynnydd, mai buddiol yw gwneud gorchymyn profiannaeth:

Ac y mae'r Llys wedi egluro i'r diffynnydd effaith y gorchymyn hwn (gan gynnwys y gofynion ychwanegol a nodir isod) ac egluro y gellir ei gosbi am y trosedd y gwnaed y gorchymyn o'i herwydd, os bydd heb gydymffurfio â'r gorchymyn neu yn cyflawni trosedd arall, ac y mae'r diffynnydd wedi mynegi ei barodrwydd/ei pharodrwydd i gydymffurfio â gofynion y gorchymyn hwn.

Felly gorchmynnir rhwymo'r diffynnydd, sy'n byw [*neu* a fydd yn byw] yn (*rhodder y cyfeiriad*) yn [Rhanbarth Llys Ynadon] , i fod am gyfnod o [blynedd] o ddyddiad y gorchymyn hwn o dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer y [Rhanbarth] hwnnw; a gorchmynnir ymhellach fod y diffynnydd i gydymffurfio yn ystod y cyfnod hwn â'r gofynion ychwanegol a ganlyn:—

1. *iddo/iddi ymddwyn yn weddus a byw'n ddiwyd;*
2. *iddo/iddi hysbysu'r swyddog profiannaeth ar unwaith am unrhyw newid ynglŷn â'i drigfa/thrigfa neu waith;*
3. *iddo/iddi gadw cysylltiad â'r swyddog profiannaeth yn unol â phob cyfarwyddyd a roddo'r swyddog profiannaeth o dro i dro ac, yn arbennig, iddo/iddi os bydd y swyddog profiannaeth yn hawlio hynny dderbyn yn ei gartref/chartref ymweliadau oddi wrth y swyddog profiannaeth;*
4. (*Yma y canlyn unrhyw ofynion eraill ynglŷn â thrigfan, etc.*)

[A gorchmynnir i'r diffynnydd dalu [yn iawn am niwed/golled a gafodd] a] ar gyfer costau, [mewn rhandaliadau [wythnosol [*neu* misol] o] a'r [rhandaliad cyntaf at y] swm hwnnw/symiau hynny i'w dalu ar unwaith [*neu* erbyn y dydd o fis , 19].]

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

70

Gwŷs i brofiannwr yn ôl cais am ddiwygio'r gorchymyn profiannaeth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o .

Gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ddydd y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , pan wrandewir cais gan am ddiwygio'r gorchymyn profiannaeth a wnaed yn eich achos chwi ar y dydd o fis , 19 , gan y Llys Ynadon [hwnnw] [*neu* Brawdlys *neu* Llys Chwarter ar gyfer [sir] yn eistedd yn .

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* rhoddwyd gan , Ynad Heddwch,
C.Y.,
Clerc [Llys yr] Ynadon.]

71

Gorchymyn yn diwygio profiannaeth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Gan i'r Llys hwn [*neu* i Lys yr Ynadon [*neu* Brawdlys *neu* Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn , ar y dydd o fis , 19 , wneud gorchymyn profiannaeth a hwnnw [yn ôl fel y

diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas] yn rhwymo A.B. yn awr o (*rhodder cyfeiriad presennol y profiannwr*) i fod am gyfnod o [blynedd] o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer [Rhanbarth Llys Ynadon] ac yn ei gwneud yn ofynnol iddo/iddi ymhellach (*noder unrhyw ofynion a ddiwygir*):

Ar gais , mae'r Llys drwy hyn yn diwygio'r gorchymyn profiannaeth hwnnw fel hyn:—(*rhodder y manylion am y diwygiad*).

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

72

Gorchymyn yn diddymu gorchymyn profiannaeth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Gan i'r Llys hwn [*neu* i Lys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]], yn eistedd yn] ar y dydd o fis , 19 , wneud gorchymyn profiannaeth, a hwnnw [, yn ôl fel y diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas] yn rhwymo A.B. i fod am gyfnod o [blynedd] o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer y Rhanbarth Llys Ynadon hwn:

[Ac nid yw'r gorchymyn profiannaeth yn cynnwys cyfarwyddyd sy'n cadw'r hawl i'w ddiddymu, i'r Brawdlys [*neu* Llys Chwarter]:]

Ar gais mae'r Llys drwy hyn yn diddymu'r gorchymyn profiannaeth hwnnw.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

75

Gwŷs am dorri gofynion gorchymyn profiannaeth

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o .

Cyflwynwyd hysbysiaeth heddiw ger fy mron i, yr Ynad Heddwch sydd a'i enw isod, gan , i'r perwyl hwn:

Ar y dydd o fis , 19 , gan [*neu* gerbron] Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn , fe'ch dyfarnwyd yn euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*); ar y dydd hwnnw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] gwnaeth y llys orchymyn profiannaeth, a hwnnw (yn ôl fel y diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas) yn eich rhwymo i fod am gyfnod o [blynedd]

o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer [Rhanbarth Llys Ynadon]
a hefyd yn eich rhwymo (*rhodder yma y gofyn a esgeuluswyd*); ac yn yr hysbysiaeth honno fe honnir ymhellach i chwi ar y dydd o fis 19 , fethu ateb i'r gofyn diwethaf a enwyd, gan i chwi (*rhodder yn gryno fanylion am y methiant*):

Gan hynny gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , i ateb i'r hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* rhoddwyd y wŷs hon gan yr Ynad Heddwch a enwyd uchod.

C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn].

82

Gwŷs yn dilyn trosedd ychwanegol yn ystod cyfnod o brofiannaeth neu o ryddhad amodol

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o .

Cyflwynwyd hysbysiaeth heddiw ger fy mron i, Yr Ynad Heddwch sydd a'i enw isod, gan , i'r perwyl hwn:

Ar y dydd o fis , 19 , gan [*neu* gerbron] Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn , fe'ch dyfarnwyd yn euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*); y dydd hwnnw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] gwnaeth y llys orchymyn profiannaeth, a hwnnw [yn ôl fel y diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas] yn eich rhwymo i fod am gyfnod o [blynedd] o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer [rhanbarth Llys Ynadon] , [*neu* orchymyn yn eich rhyddhau dan yr amod na fyddech yn cyflawni unrhyw drosedd yn ystod y cyfnod o mis o ddyddiad y gorchymyn]:
ac yn yr hysbysiaeth honno fe honnir ymhellach eich bod ar y dydd o fis , 19 , gan [*neu* gerbron] Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]], yn eistedd yn , wedi'ch dyfarnu'n euog o drosedd ychwanegol, sef (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*), a gyflawnwyd gennych yn ystod y cyfnod hwnnw, sef ar y dydd o fis , 19 , ac ichwi dderbyn dedfryd o [*neu* gorchymyn i] :

Gan hynny gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, gerbron Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]], a fydd yn eistedd yn , i ateb i'r hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* rhoddwyd y wŷs hon gan yr Ynad Heddwch a enwyd uchod.

C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

89

Gwŷs yn dilyn trosedd ychwanegol yn ystod cyfnod gweithredol dedfryd ataliedig.

Yn [sir , Rhanbarth Llys Ynadon].

At A.B., o .

Cyflwynwyd hysbysiaeth heddiw ger fy mron i, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, gan , i'r perwyl hwn:

Ar y dydd o fis , 19 , gan Lys yr Ynadon yn eistedd yn , fe'ch dyfarnwyd yn euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*); ar y dydd hwnnw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] rhoddodd y Llys hwnnw ddedfryd arnoch o garchar am (*enwer y cyfnod*), gan wneud hefyd orchymyn sydd [yn ôl fel y newidiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas] yn peri na fydd y ddedfryd yn dod i rym oni bai i chwi gyflawni trosedd carcharol arall ym Mhrydain Fawr ac yn ystod y cyfnod yn dechrau ar ddyddiad y gorchymyn ac yn diweddu ar y dydd o fis , 19 :

Ac yn yr hysbysiaeth honno fe honnir ymhellach eich bod ar y dydd o fis , 19 , gan [*neu* gerbron] Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]], yn eistedd yn , wedi'ch dyfarnu'n euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*), sef trosedd carcharol a gyflawnwyd gennych ar y dydd o fis , 19 , yn ystod y cyfnod hwnnw, ac i chwi dderbyn dedfryd o [*neu* gorchymyn i] :

Gan hynny gwysir chwi drwy hyn i ymddangos ar ddydd , y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn, gerbron Llys yr Ynadon i ateb i'r hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
(*Yma dilyner y ffurf gymwys ar gyfer rhoi mewn dalfa am beidio â thalu dirwy, gan roi yn lle pob cyfeiriad at garchariad gyfeiriad at gadw yng nghelloedd tystiedig yr heddlu, etc.*)

61

Gwarant i gadw mewn swyddfa heddlu

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid a phawb y mae o bwys iddo.

	£	s	d.
Dirwy			
Iawn			
Costau			
Cyfanswm ...			
Taliadau Rhannol			
Gweddill ...			

Heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19], dyfarnwyd A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd, yn euog gan Lys yr Ynadon yn eistedd yn , o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) a dedfrydwyd ef/hi i dalu dirwy o [, a o iawn] [a o gostau]:

A gorchmynnir heddiw oni thelir y swm [symiau] a enwyd, i gadw'r diffynnydd mewn swyddfa heddlu yn unol ag adran 111 Magistrates' Courts Act 1952:

A chan fod diffynnydd [wedi talu yn daliad rhannol, ond] heb dalu [y gweddill o sy'n ddyledus]:

Gorchmynnir chwi y cwnstabliaid a enwyd ac unrhyw gwnstabliaid eraill drwy hyn oni thelir cyn hynny y swm [symiau] [*neu* gweddill] a enwyd i gymryd y diffynnydd, a'i hebrwng i swyddfa heddlu gyfleus, a'i gadw/chadw yno, tan wyth o'r gloch y bore drannoeth y dydd y restiwyd ef/hi dan y warant hon, neu, os restir ef/hi dan y warant hon rhwng canol nos ac wyth o'r gloch y bore, tan wyth o'r gloch y bore ar y dydd y restir ef; ond bydd gan y swyddog a chanddo ofal y swyddfa heddlu lle y cedwir y diffynnydd yn ôl y warant hon, awdurdod i'w ryddhau/rhyddhau ar unrhyw adeg o fewn pedair awr cyn wyth o'r gloch y bore, os bydd y swyddog hwnnw'n tybio mai buddiol yw gwneud hynny er mwyn iddo/iddi fynd at ei [g]waith, neu am unrhyw reswm arall sy'n ymddangos yn ddigonol i'r swyddog hwnnw.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

(*Nodiad ynglŷn â thaliadau*)

TALIADAU A DDERBYNIWYD GAN BERSONAU A GOFAL DROS Y DIFFYNNYDD

Dyddiad derbyn	£	s.	d.	Llofnod

62

Gorchymyn trosglwyddo dirwy

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

	£	s.	d.
Dirwy			
Iawn			
Costau			
Cyfanswm ...			
Taliadau rhannol			
Gweddill ...			

Heddiw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] gan [*neu* gerbron] Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn , dyfarnwyd A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) yn euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*)

A dyfarnwyd iddo/iddi dalu dirwy o [, a ar gyfer iawn] [a ar gyfer costau] mewn rhandaliadau [wythnosol [*neu* misol] o ,] a'r [rhandaliad cyntaf at y] swm hwnnw/symiau hynny i'w dalu ar unwaith [*neu* erbyn y dydd o fis , 19 ,] [a'r Llys Ynadon ar gyfer y [Rhanbarth Llys Ynadon] hwn yw'r llys y mae'n rhaid iddo, dan adran 47(3) Criminal Justice Act 1967, orfodi taliad y swm hwnnw]:

[A dyfarnodd y Brawdlys *neu* Llys Chwarter hwnnw mai am [mis] y carcherir y diffynnydd am beidio â thalu:]

Ac y mae'r diffynnydd wedi [talu mewn rhandaliad, ond] heb dalu [y gweddill o]:

Ac nid yw'r cyfnod talu wedi dod i ben eto:]

Ac mae'n ymddangos fod y diffynnydd yn byw yn (*noder y cyfeiriad*) yn y [Rhanbarth Llys Ynadon] a enwir yma wedi hyn:

Gwneir drwy hyn orchymyn trosglwyddo dirwy yn ôl adran 72 Magistrates Courts Act 1952, yn trosglwyddo i Lys Ynadon yn gweithredu ar ran [Rhanbarth Llys Ynadon , yn sir ,] ac i glerc y Llys hwnnw, yr holl swyddogaethau y cyfeirir atynt yn yr adran honno yn ymwneud â'r swm hwnnw/symiau hynny [*neu'r* gweddill hwnnw].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

*(Camau a gymerwyd i gasglu'r swm:—

Gwybodaeth arall a fyddai'n debyg o gynorthwyo'r llys i orfodi taliad:—

*I'w ysgrifennu ar y copi a ddanfonir i glerc y llys sydd ag awdurdod dan y gorchymyn.

64

Gorchymyn trosglwyddo-dirwy ychwanegol

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

	£	s.	d.
Dirwy			
Iawn			
Costau			
Cyfanswm ...			
Taliadau rhannol			
Gweddill ...			

Ar y dydd o fis , 19 , gan Lys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys neu y Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn [*neu* Lys yn yr Alban], dyfarnwyd i A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) dalu dirwy o [, a ar gyfer iawn,] [a ar gyfer costau], [a Llys yr Ynadon ar gyfer [Rhanbarth Llys Ynadon yn sir oedd y Llys yr oedd yn rhaid iddo dan adran 47(3) Criminal Justice Act 1967 orfodi taliad y swm hwnnw]:

[A dyfarnodd y Brawdlys neu y Llys Chwarter mai am [mis] y carcherir y diffynnydd am beidio â thalu:]

Yn rhinwedd gorchymyn trosglwyddo dirwy dyddiedig y dydd o fis , 19 , trosglwyddwyd y swydd o orfodi taliad y swm hwnnw/symiau hynny i lys yn gweithredu ar ran y cylch llys ynadon hwn:

Ac y mae'r diffynnydd wedi [talu mewn taliad rhannol, ond] heb dalu [gweddill o]:

Ac nid yw'r cyfnod talu wedi dod i ben eto:

Ac mae'n ymddangos fod y diffynnydd yn byw yn (*noder y cyfeiriad*) yn y [Rhanbarth Llys Ynadon] [*neu* o fewn cylch awdurdod y llys awdurdod diannod] a enwir yma wedi hyn:

Trwy hyn gwneir gorchymyn trosglwyddo-dirwy ychwanegol yn ôl adran 72(3) [*neu* 72A] [fel y'i cymhwysir gan adran 72B] Magistrates' Courts Act 1952, yn

trosglwyddo i lys Ynadon yn gweithredu ar ran [Rhanbarth Llys Ynadon , yn sir] [*neu* i Lys yn yn yr Alban] y swydd o orfodi taliad y swm hwnnw/symiau hynny [*neu'r* gweddill hwnnw].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

*Camau a gymerwyd i gasglu'r swm:—

Gwybodaeth arall a fyddai'n debyg o gynorthwyo'r llys i orfodi taliad:

---

*I'w ysgrifennu ar y copi a ddanfonir i glerc y llys sydd ag awdurdod dan y gorchymyn.

69

Gorchymyn rhyddhad amodol

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Heddiw [gan iddo gytuno i sefyll ei brawf mewn llys ynadon], dyfarnwyd A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd yn euog o (rhodder yn gryno fanylion am y trosedd):

Ac y mae'r Llys o'r farn, ar ôl ystyried yr amgylchiadau gan gynnwys natur y trosedd a chymeriad y diffynnydd, mai anfuddiol yw gosod cosb arno ac anaddas yw gorchymyn profiannaeth:

Gorchmynnir rhyddhau'r diffynnydd ar yr amod na fydd yn cyflawni unrhyw drosedd yn ystod y cyfnod o blynedd o ddyddiad y gorchymyn hwn.

[A gorchmynnir i'r diffynnydd dalu [yn iawn am niwed/golled a gafodd] a] ar gyfer costau, [mewn rhandaliadau wythnosol [*neu* misol] o], a'r [rhandaliad cyntaf at y] swm hwnnw/symiau hynny i'w dalu ar unwaith [*neu* erbyn y dydd o fis , 19].]

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

76

Gwarant am dorri gofynion gorchymyn profiannaeth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid [*neu* At X.Y. o].

Cyflwynwyd heddiw hysbysiaeth ar lw [*neu* gadarnhâd] ger fy mron i, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, gan fod A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) ar y dydd o fis , 19 , wedi'i ddyfarnu'n euog gan [*neu* gerbron] Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys neu y Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn , o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*), ac ar y dyddiad hwnnw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] gwnaeth y Llys orchymyn profiannaeth, a hwnnw [yn ôl fel

y diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas,] yn rhwymo'r diffynnydd i fod am gyfnod o [blynedd] o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer [Rhanbarth Llys Ynadon] a hefyd yn ei rwymo (*rhodder yma y gofyn a esgeuluswyd*): ac yn yr hysbysiaeth honno fe honnir ymhellach i'r diffynnydd ar y dydd o fis , 19 , fethu ateb i'r gofyn diwethaf a enwyd, gan iddo (*rhodder yn gryno fanylion am y methiant*).

Gan hynny gwysir chwi drwy hyn i ddod ar unwaith â'r diffynnydd a enwyd gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , neu gerbron ynad heddwch yn rhanbarth y llys ynadon lle y mae'r llys i ateb i'r hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

(*Nodiad lle caniateir mechnïaeth*)

Gorchymynnir fod y diffynnydd wedi iddo gael ei restio i'w ryddhau ar fechnïaeth, os bydd yn gwneud ymrwymiad yn y swm o gyda meichiau o feichiafon am [yr un] ei fod yn ymddangos gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , 19 am o'r gloch y bore/prynhawn y dydd nesaf y bydd y Llys ar agor [*neu* ar y dydd o fis , 19]. [Bydd ymrwymiad y diffynnydd dan yr amod[au] canlynol (*Rhodder manylion*)].

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

79

Gorchymyn am beidio â chydymffurfio â gofynion gorchymyn profiannaeth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Ar y dydd o fis , 19 , dyfarnwyd A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) gan Lys yr Ynadon yn eistedd yn , yn euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*), ac ar y dydd hwnnw [*neu* ar y dydd o fis , 19] gwnaeth y Llys hwnnw orchymyn profiannaeth, a hwnnw [yn ôl fel y diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas] yn ei rwymo ef/rhwymo hi i fod am gyfnod o [blynedd] o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer [Rhanbarth Llys Ynadon] , a hefyd yn ei rwymo/rhwymo (*rhodder yma y gofyn a esgeuluswyd*):

Ac ymddangosodd [*neu* A dygwyd] y diffynnydd heddiw gerbron y Llys Ynadon [hwnnw] yn eistedd yn , a bodlonwyd y Llys ei fod ef/bod hi wedi methu ateb i'r gofyn a enwyd ddiwethaf yma, gan iddo/iddi (*rhodder yn gryno fanylion am y methiant*):

Dyfernir i'r diffynnydd, am iddo fethu cydymffurfio â'r gofynion hynny, dalu dirwy o (*yn unol â ffurf y dyfarniad lle gosodir y dirwy*) [*neu*' *lle ymdrinir â'r diffynnydd ar gyfer y trosedd gwreiddiol* am y trosedd hwnnw y gwnaethpwyd y gorchymyn profiannaeth hwnnw ar ei gyfer (*yn unol â'r ffurf briodol ar gyfer euogfarn*)].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,

C.Y.,

Clerc y Llys.]

83

Gwarant yn dilyn trosedd ychwanegol yn ystod cyfnod o brofiannaeth neu o ryddhad amodol

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid [*neu* At X.Y. o].

Cyflwynwyd hysbysiaeth ar lw [*neu* gadarnhâd] heddiw ger fy mron i, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, gan i'r perwyl hwn:

Ar y dydd o fis , 19 , gan [*neu* gerbron] Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn dyfarnwyd A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) yn euog o (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*); y dydd hwnnw [*neu* ar y dydd o , 19 ,] gwnaeth y Llys hwnnw orchymyn profiannaeth, a hwnnw [yn ôl fel y diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas,] yn rhwymo'r diffynnydd i fod am gyfnod o [blynedd] o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer [Rhanbarth Llys Ynadon] [*neu* orchymyn yn rhyddhau'r diffynnydd dan yr amod na fyddai'n cyflawni unrhyw drosedd yn ystod y cyfnod o blynedd o ddyddiad y gorchymyn]; ac yn yr hysbysiaeth honno fe honnir ymhellach fod y diffynnydd ar y dydd o fis , 19 , gan [*neu* gerbron] Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys neu y Llys Chwarter ar gyfer [sir]], yn eistedd yn , wedi'i ddyfarnu'n euog o drosedd ychwanegol, sef (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) a gyflawnwyd ganddo/ganddi ar y dydd o fis , 19 , yn ystod y cyfnod hwnnw, ac iddo/iddi dderbyn dedfryd o [*neu* gorchymyn i] :

Gorchmynnir chwi drwy hyn i ddod â'r diffynnydd ar unwaith gerbron Llys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]] a fydd yn eistedd yn , i ateb i'r hysbysiaeth honno.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

(*Nodiad lle bo'r warant yn gofyn am i'r diffynnydd gael ei ddwyn gerbron Llys Ynadon, a chaniatáu mechnïaeth*)

Gorchmynnir fod y diffynnydd wedi iddo gael ei restio i'w ryddhau ar fechnïaeth, os bydd yn gwneud ymrwymiad yn y swm o gyda meichiau/ o feichiafon am [yr un] ei fod yn ymddangos gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , am o'r gloch y bore/pryhawn y dydd nesaf y bydd y Llys ar agor [*neu* ar y dydd o fis , 19].
[Bydd ymrymiad y diffynnydd dan yr amod[au] canlynol (*Rhodder manylion*)].

Y.H.,

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

85

Gorchymyn am y trosedd gwreiddiol pan fo trosedd ychwanegol wedi'i gyflawni yn ystod cyfnod o brofiannaeth neu o ryddhad amodol

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Ar y dydd o fis , 19 , gan Lys yr Ynadon yn eistedd yn , dyfarnwyd A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) yn euog (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*), ac ar y dydd hwnnw [*neu* ar y dydd o fis , 19 ,] gwnaeth y Llys hwnnw orchymyn profiannaeth, a hwnnw [, yn ôl fel y diwygiwyd ef wedi hynny gan y Llys cyfaddas]

yn ei r[h]wymo ef/hi i fod am gyfnod o [blynedd] o'r dyddiad hwnnw dan oruchwyliad swyddog profiannaeth a benodwyd neu a neilltuwyd ar gyfer [Rhanbarth Llys Ynadon] , [*neu* orchymyn yn ei r[h]yddhau ar yr amod na fyddai ef/hi yn cyflawni unrhyw drosedd ychwanegol yn ystod y cyfnod o blynedd o ddyddiad y gorchymyn]:

Ac ymddangosodd [*neu* dygwyd] y diffynnydd heddiw gerbron y Llys hwnnw [*neu* a enwyd gyntaf] a bodlonwyd y Llys fod y diffynnydd ar y dydd o fis , 19 , gan [*neu* gerbron] y Llys Ynadon [*neu* Brawdlys *neu* Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn , wedi ei [d]dyfarnu'n euog o drosedd ychwanegol, sef (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) a gyflawnwyd ganddo/ganddi ar y dydd o fis , 19 , yn ystod y cyfnod hwnnw:

[*neu* A dyfarnwyd y diffynnydd yn euog heddiw gan y Llys a enwyd gyntaf, o drosedd ychwanegol, sef, (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) a bodlonwyd y Llys ei fod ef/bod hi wedi cyflawni'r trosedd hwnnw ar y dydd o fis , 19 , yn ystod y cyfnod hwnnw:

A bodlonwyd y Llys fod caniatâd y Llys, a wnaeth y gyrchymyn, [*neu* Llys goruchwyliaeth] wedi'i roi yn briodol yn ôl adran 87 o Criminal Justice Act 1948:]

Dyfernir fod y diffynnydd am y trosedd y gwneir y gorchymyn ar ei gyfer, yn (*yn unol â'r ffurf briodol ar gyfer euogfarn*).

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

102

Gorchymyn yn gwrthod achwyniad

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .
Gan fod C.D. o , wedi gwneud achwyniad fod A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) o , ar y dydd o fis , 19 , yn , yn y [Rhanbarth Llys Ynadon] a enwyd uchod, [*neu* yn y [sir] a enwyd uchod [*neu* yn sir]], wedi/yn (*rhodder yn gryno sail yr achwyniad*):

Dyfarnwyd heddiw fod yr achwyniad hwnnw wedi'i wrthod.

[A gorchmynnir fod yr achwynydd yn talu i'r diffynnydd y swm o ar gyfer costau [mewn rhandaliadau [wythnosol [*neu* misol] o , a'r rhandaliad cyntaf i'w dalu] ar unwaith [*neu* erbyn y dydd o fis , 19]]:

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

105

Gwarant i restio dyffygdalwr : treth

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid [*neu* At X.Y. o].

Ar y dydd o fis , 19 , gwysiwyd A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) i ymddangos gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn , i ddangos achos yn erbyn arwyddo gwarant atafael ar gyfer y swm o sy'n ddyled arno/arni er talu'r dreth a godwyd gan Gyngor ar gyfer y mis yn diweddu ar y dydd o fis , 19 :

Wedi hynny arwyddwyd gwarant atafael er mwyn casglu'r swm hwnnw a'r swm o ar gyfer y costau ynglŷn â chodi'r warant honno, ond ni allwyd cael digon o eiddo i godi'r symiau hynny oddi arno.

Ac y mae'n ddyled ar y diffynnydd y swm ychwanegol o , sef y costau ynglŷn â'r atafaeliad hwnnw:

Ac y mae'r diffynnydd [wedi talu tuag at y ddyled, ond] heb dalu [y gweddill, sef]:

A gwnaeth y Cyngor a enwyd gais i'r llys a enwyd am warant i draddodi'r diffynnydd i garchar oherwydd y symiau hynny [*neu* y gweddill hwnnw]:

Gorchmynnir chwi drwy hyn i ddod â'r diffynnydd gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , neu gerbron ynad heddwch yn y rhanbarth llys ynadon lle y mae'r llys, ar unwaith.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd.

(*Nodiad lle caniateir mechnïaeth*)

Gorchmynnir fod y diffynnydd wedi iddo gael ei restio i'w ryddhau ar fechnïaeth, os bydd yn gwneud ymrwymiad yn y swm o gyda meichiau/ o feichiafon am [yr un], ei fod yn ymddangos, oni thelir cyn hynny y swm/symiau [*neu*'r gweddill] y ceir manylion amdano/amdanynt yn y warant hon, gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , am o'r gloch y bore/prynhawn y dydd nesaf y bydd y Llys ar agor [*neu* ar y dydd o fis , 19].

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd.

(*Nodiad ynglŷn â thaliadau*)

TALIADAU Â DDERBYNIWYD GAN Y PERSON SY'N DAL Y WARANT HON

Dyddiad derbyn	£	s.	d.	Llofnod

108

Gorchymyn: dyled sifil

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Heddiw dyfarnwyd i A.B. o dalu i C.D. o , y swm o [sef swm y gellir ei hawlio mewn llys ynadon fel dyled sifil, a] ar gyfer costau, [mewn rhandaliadau wythnosol [*neu* misol] o], a'r [rhandaliad cyntaf at y] swm hwnnw/symiau hynny i'w dalu ar unwaith [*neu* erbyn y dydd o fis , 19];[a gorchmynnir, oni thelir y swm sy'n ddyledus yn unol â hynny, ei godi trwy atafaelu a gwerthu eiddo'r A.B. hwnnw].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.

111

Gwarant atafael: Dyled sifil

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid [*neu* At X.Y. o].

Ar y dydd o fis , 19 , rhoddwyd gorchymyn gan Lys yr Ynadon [*neu* y Brawdlys *neu* y Llys Chwarter ar gyfer [sir]] yn eistedd yn fod A.B. (a elwir yma wedi hyn y dyledwr) yn talu i C.D., o , y swm o [sef arian y gellir ei hawlio fel dyled sifil mewn Llys Ynadon, a] ar gyfer costau, [a'r gorchymyn hwnnw wedi'i wneud ym mhresenoldeb y dyledwr]; ac [ar y dydd o fis , 19 ,] gorchmynnwyd [ymhellach] [gan Lys yr Ynadon yn eistedd yn ,] oni thelid fod y symiau dyledus dan y gorchymyn i'w codi trwy atafaelu a gwerthu eiddo'r dyledwr:

[A chan fod y dyledwr wedi cael copi o gofnod y gorchymyn a enwyd gyntaf:]

A chan na thalwyd yr arian, gorchmynnir chwi drwy hyn i atafaelu ar unwaith arian ac eiddo'r dyledwr (ac eithrio'i [g]wisg a'i [d]dillad gwely ef/hi a'i deulu/theulu, ac eithrio hefyd offer ac arfau ei [g]alwedigaeth hyd at werth hanner canpunt; ac oni thelir y swm dyledus a nodir ar waelod y warant hon ynghyd â'r taliadau rhesymol am atafaelu a chadw yr eiddo hwnnw, yna ar neu wedi'r [chweched] dydd ar ôl gwneud yr atafaeliad hwnnw (os bydd y dyledwr heb roi caniatâd ysgrifenedig i werthu ynghynt) i werthu'r eiddo hwnnw a atafaelwyd gennych a thalu'r arian a gafwyd drwy hynny i Glerc y Llys Ynadon a fydd yn eistedd yn , ac oni ellir cael eiddo i'w atafaelu felly, i ardystio hynny i'r Llys.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.

	£	s.	d.
Swm a orchmynnwyd			
Swm a dalwyd			
Swm sydd ar ôl heb ei dalu			
Costau'r warant hon			
Cyfanswm sydd i'w godi			

116

Gorchymyn ymrwymiad i gadw heddwch, etc.

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Gan fod C.D. wedi gwneud achwyniad fod A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) wedi (*rhodder yn gryno sail yr achwyniad*)

Dyfarnwyd fod yr achwyniad hwn yn wir, a gorchmynnir i'r diffynnydd wneud ymrwymiad ar unwaith yn y swm o , gyda meichiau o feichiafon am [yr un], i gadw heddwch ac ymddwyn yn weddus tuag at Ei Mawrhydi a'i holl bobl ac yn arbennig tuag at C.D. a enwyd uchod am gyfnod o o ddyddiad y gorchymyn hwn:

A dyfarnwyd, os bydd y diffynnydd heb gydymffurfio â'r gorchymyn hwn, ei roi ef/rhoi hi yng ngharchar Ei Mawrhydi yn am (*noder y cyfnod*) oni fydd wedi cydymffurfio â'r gorchymyn cyn hynny.

[A gorchmynnir fod y diffynnydd yn talu i C.D. y swm o ar gyfer costau [mewn rhandaliadau [wythnosol [*neu* misol] o , a'r rhandaliad cyntaf i'w dalu] ar unwaith [*neu* erbyn y dydd o fis , 19 .]]

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

118

Gorchymyn yn amrywio gorchymyn am feichiau

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn .

Gan fod A.B. (a elwir yma wedi hyn y diffynnydd) o dan warant garcharu a roddwyd ar y dydd o fis , 19 , ac a gyflwynwyd gan y Llys hwn, wedi ei draddodi i garchar am beidio â sicrhau meichiau/ o feichiafon am [yr un]:

A chan fod cais wedi'i wneud yn briodol i'r perwyl hwnnw, gorchmynnir heddiw fod y swm y gofynnir i feichiau/feichiafon y diffynnydd ymrywmo ynddo i'w leihau i [*neu* fod ymrwymiad y diffynnydd i gael meichiau/meichiafon i'w ddiddymu].

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

119

Ymrwymiad: cyffredinol

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Ymrwymiad prif ymrwymwr

Yr wyf i, , yn cydnabod fod y swm o yn ddyledus arnaf i'n Brenhines, ac y gellir gorfodi'r tâl yn fy erbyn yn ôl trefn briodol y gyfraith os byddaf yn peidio â chydymffurfio ag unrhyw un o'r amodau a nodir yma.

(Llofnodwyd) A.B. o .

Derbyniwyd ger fy mron i y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

[*neu* E.F.,
[Arolygwr] Heddlu .]

Ymrwymiad meichiau

Yr wyf i/ŷm ni, , yn cydnabod fod y swm o [yr un] yn ddyledus arnaf/arnom i'n Brenhines, ac y gellir gorfodi'r tâl yn fy erbyn i/ein herbyn ni bob un ar wahân yn ôl trefn briodol y gyfraith os bydd y prif ymrwymwr a enwyd uchod yn peidio â chydymffurfio â'r amod[au] a nodir yma [ar wahân i'r amod[au] sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo].

(Llofnodwyd) G.H. o .

J.K. o .

Derbyniwyd ger fy mron i y dydd hwn o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

[*neu* E.F.,
(Arolygwr) Heddlu .]

(*Nodiad*)

Amod[au]

Dyma amodau yr ymrwymiad hwn:—os bydd y prif ymrwymwr yn ymddangos gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn , ar ddydd y dydd o fis , 19 , am o'r gloch y bore/prynhawn [ac yn ymddangos ar bob adeg ac ym mhob lle y gohirir y gwrandawiad iddo o bryd i'w gilydd yn ystod y gweithrediadau yn ei erbyn, oni fydd y Llys wedi

gorchymyn yn wahanol yn y cyfamser] i ateb y cyhuddiad a wnaethpwyd yn ei erbyn/herbyn gan ,

[*neu* yn ymddangos gerbron y Brawdlys [*neu* Llys Chwarter] nesaf ar gyfer [sir] , a gynhelir yn , a'i roi/rhoi ei hun yno i'r ddalfa [a sefyll ei brawf/phrawf am unrhyw dditment a ddygir yn ei (h)erbyn],]

[ac, yn unol ag amod ei [h]ymddangosiad, yn cael archwiliad meddygol gan [ddau feddyg trwyddedig, [ac un ohonynt wedi'i gymeradwyo ar gyfer dibenion adran 28 Mental Health Act 1959], ac i'r pwrpas hwn yn mynd i (*noder enw a chyfeiriad y sefydliad neu'r lle, neu enw a chyfeiriad y meddyg,*) ac yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roir iddo/iddi at y pwrpas hwnnw gan [a byw yno tan wedi dyddiad ei [d]derbyn, neu nes ei ryddhau cyn hynny],]

[ac, yn unol ag amod ei [h]ymddangosiad (*nodwch unrhyw amodau mechnïaeth arbennig*).]

[*neu* yn cadw'r heddwch ac ymddwyn yn weddus tuag at Ei Mawrhydi a'i holl bobl, ac yn arbennig tuag at , am gyfnod o o ddyddiad yr ymrwymiad hwn,]

[*neu* yn ymddangos ar ddiwrnod ac amser ac mewn lle a hysbysir iddo/iddi gan Glerc y Llys pan wrandewir ei [h]apêl i'r Llys Chwarter ar gyfer y [sir] a enwyd uchod oddi wrth benderfyniad Llys yr Ynadon yn eistedd yn , dyddiedig y dydd o fis , 19 , pryd y dyfarnwyd y prif ymrwymwr yn euog (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) [*neu* dedfrydwyd y prif ymrwymwr *neu* gorchmynnwyd i'r prif ymrwymwr],]

[*neu* yn mynd ymlaen yn ddiymdroi â'i [h]apêl i'r Uchel Lys oddi wrth euogfarn [*neu* orchymyn] Llys yr Ynadon yn eistedd yn , dyddiedig y dydd o fis , 19 , yn dyfarnu'r prif ymrwymwr yn euog (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) [*neu* yn gorchymyn i'r prif ymrwymwr], ac ymostwng i farn yr Uchel Lys a thalu'r costau a ddyfernir gan yr Uchel Lys [* ac, oni wrthdroir y penderfyniad y gwneir apêl yn ei erbyn, yn ymddangos gerbron y Llys Ynadon hwnnw o fewn deg diwrnod wedi rhoi'r fath farn],]

[*neu* (*lle bo'r erlynydd yn gwneud apêl*) yn mynd ymlaen yn ddiymdroi â'i [h]apêl i'r Uchel Lys oddi wrth benderfyniad Llys yr Ynadon yn eistedd yn , ar y dydd o fis , 19 , yn gwrthod hysbysiaeth gan y prif ymrwymwr yn honni fod X.Y. wedi (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*) [*neu* (*noder y penderfyniad arall y gwneir apêl yn ei erbyn*)], a thalu'r costau a ddyfernir gan yr Uchel Lys,]

yna bydd yr ymrwymiad hwn yn ddi-rym, ac onid e fe fydd yn parhau mewn grym yn llawn.

---

*Dileër os nad yw'r prif ymrwymwr i'w ryddhau ar fechnïaeth tra bo'n aros am yr apêl i'r Uchel Lys.

121

Ymrwymiad tyst a meichiau

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

Mae'r personau a enwir isod i gyd yn cydnabod fod y symiau canlynol yn ddyledus arnynt i'n Brenhines, sef:

C.D. o , yn brif ymrwymwr, y swm o , a/ac o , [a/ac o] yn feichiau/feichiafon y swm o [yr un], a gellir gorfodi'r tâl yn erbyn pob un ohonynt ar wahân yn ôl trefn briodol y gyfraith, os bydd y prif ymrwymwr yn peidio â chydymffurfio â'r amod a nodir yma.

(*Llofnodwyd*) C.D.
X.Y.

Derbyniwyd ger fy mron i y dydd hwn o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* C.Y.,
Clerc Llys yr Ynadon yn eistedd yn .]

[*neu* E.F.,
Swyddog â gofal Swyddfa Heddlu .]

(*Nodiad*)

Amod

Dyma amod yr ymrwymiad hwn: rhoddwyd gwarant gan i restio C.D. a'i ddwyn/dwyn gerbron y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] ar gyfer [sir] , a chan fod y C.D. hwnnw wedi'i restio yn ôl y warant, fe'i dygwyd gerbron Llys Ynadon [*neu* i Swyddfa Heddlu] dan adran 5 Criminal Procedure (Attendance of Witnesses) Act 1965:

Gan hynny os bydd C.D. yn ymddangos yn y Brawdlys [*neu* y Llys Chwarter] ar gyfer [sir] , ar yr amser a orchmynnir iddo/iddi, yna, bydd yr ymrwymiad hwn yn ddi-rym, ac onid e, bydd yn parhau mewn grym yn llawn.

130

Gwarant atafael: ymrwymiad a fforffedwyd

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid [*neu* At X.Y. o].

Trwy ei ymrwymiad a wnaed ar y dydd o fis , 19 , rhwymwyd A.B. yn y swm o :

Ac oherwydd fod amod yr ymrwymiad hwnnw wedi'i dorri, dyfarnwyd ar y dydd o fis , 19 , gan Lys yr Ynadon yn eistedd yn , fod fforffedu'r ymrwymiad hwnnw, ac iddo yntau/hithau dalu'r swm hwnnw [*neu* swm o] [a'r swm ychwanegol o at y costau] [mewn rhandaliadau wythnosol [*neu* misol] o] a'r taliad cyntaf at y swm [symiau] hynny i'w dalu ar unwaith [*neu* ar y dydd o fis , 19].

A chan fod hysbysiaeth am y fforffedu hynny wedi'i roi i'r diffynnydd, a chan na thalwyd yr arian:

Gorchmynnir chwi drwy hyn i atafaelu ar unwaith arian ac eiddo'r A.B. hwnnw (ac eithrio'i [g]wisg a'i [d]dillad gwely ef/hi a'i deulu/theulu, ac eithrio hefyd offer ac arfau ei [g]alwedigaeth hyd at werth hanner canpunt; ac oni thelir y swm dyledus a nodir ar waelod y warant hon ynghyd â'r taliadau rhesymol am atafaelu a chadw yr eiddo hwnnw, yna ar neu wedi'r [chweched] dydd ar ôl gwneud yr atafaeliad hwnnw, os bydd yr A.B. a enwyd heb roi caniatâd ysgrifenedig i werthu ynghynt, i werthu'r eiddo a enwyd a thalu'r arian a gafwyd trwy hynny i Glerc y Llys hwnnw, ac oni ellir cael eiddo i'w atafaelu felly, i ardystio hynny i'r Llys.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

	£	s.	d.
Swm sy'n ddyledus o dan y dyfarniad			
Talwyd			
Swm sydd ar ôl heb ei dalu			
Costau'r warant hon			
Swm sydd i'w godi			

133

Gwarant i restio tyst sydd heb ymddangos ar wŷs

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid [*neu* At X.Y. o].

Gwysiwyd E.F. (a elwir yma wedi hyn y tyst) i ymddangos ddydd y dydd o fis , 19 , am o'r gloch yn y bore/prynhawn, gerbron Llys yr Ynadon yn eistedd yn , ar wrandawiad hysbysiaeth [*neu* achwyniad] yn erbyn A.B. i [roi tystiolaeth yn y fan honno] [a] [chyflwyno'r [d]dogfen[nau] neu beth[au] canlynol:—

Ac y mae'r tyst heb ymddangos i ateb y wŷs honno, ac mae'n ymddangos i'r Llys nad oes esgus cyfiawn dros hynny:

A phrofwyd i fodlonrwydd y Llys drwy dystiolaeth ar lw [*neu* gadarnhâd] fod y tyst yn debyg o allu [rhoi tystiolaeth berthnasol] [a] [chyflwyno'r [d]dogfen[nau] neu beth[au] a enwyd uchod yn y gwrandawiad hwnnw, [a phrofwyd ymhellach drwy ddatganiad [*neu* dystysgrif]] ei fod ef/bod hi wedi derbyn y wŷs yn briodol a bod swm rhesymol wedi'i dalu [*neu* wedi'i gynnig iddo/iddi] ar gyfer ei gostau/chostau a'i dreuliau/threuliau i'r perwyl hwnnw.

Gorchmynnir chwi drwy hyn i ddwyn y tyst gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , neu ynad heddwch yn y rhanbarth llys ynadon lle y mae'r llys, ar unwaith.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y (sir) a enwyd uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

(*Nodiad lle caniateir mechnïaeth*)

Gorchmynnir fod y tyst wedi iddo gael ei restio, i'w ryddhau ar fechnïaeth, os bydd yn gwneud ymrwymiad yn y swm o , gyda meichiau/o feichiafon am [yr un], ei fod yn ymddangos i'r diben a enwyd uchod gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , am o'r gloch y bore/prynhawn y dydd nesaf y bydd y Llys ar agor [*neu* ar y dydd o fis , 19]. [Bydd ymrwymiad y tyst dan yr amod[au] canlynol. (*Rhodder manylion*)].

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd uchod.

[*neu* Trwy orchymyn y Llys,
C.Y.,
Clerc y Llys.]

134

Gwarant i restio tyst yn y lle cyntaf

Yn [sir . Rhanbarth Llys Ynadon].

At bob un o gwnstabliaid [*neu* At X.Y. o].

Cyflwynwyd hysbysiaeth gan fod A.B. wedi/yn (*rhodder yn gryno fanylion am y trosedd*):

A chan fy mod i, yr Ynad Heddwch sydd â'i enw isod, wedi fy modloni gan dystiolaeth ar lw [*neu* gadarnhâd] fod E.F. (a elwir yma wedi hyn y tyst) yn debyg o allu [rhoi tystiolaeth berthnasol] [ac o allu] [cyflwyno'r [d]dogfen[nau] neu beth[au] a enwir isod, sy'n debyg o fod yn dystiolaeth berthnasol] yn yr achos ac na ddaw ef/hi i'r Llys o'i [g]wirfodd i'r pwrpas hwnnw a'i bod yn debygol na fyddai gwŷs yn gwneud iddo/iddi fod yn bresennol:

Gan hynny gorchmynnir chwi trwy hyn i ddod â'r tyst ar unwaith gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn neu gerbron ynad heddwch yn y rhanbarth llys ynadon lle y mae'r llys.

Dyddiedig y dydd o fis , 19 .

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

(*Nodiad lle caniateir mechnïaeth*)

Gorchmynnir fod y tyst [wedi iddo gael ei restio] i'w ryddhau os bydd yn gwneud ymrwymiad yn y swm o , gyda meichiau/ o feichiafon am [yr un], ei fod yn ymddangos gerbron Llys yr Ynadon a fydd yn eistedd yn , am o'r gloch y bore/prynhawn y dydd nesaf y bydd y Llys ar agor [neu ar y dydd o fis , 19].

[Bydd ymrwymiad y tyst dan yr amod[au] canlynol (*Rhodder manylion*)].

Y.H.,
Ynad Heddwch yn y [sir] a enwyd gyntaf uchod.

SCHEDULE 2 Rule 5

Darperir y ddogfen hon yn Gymraeg/Saesneg os bydd arnoch ei heisiau. Dylech wneud cais yn ddi-oed i [Glerc Llys yr Ynadon][1] (*rhodder yma'r cyfeiriad*).....
.....

This document will be provided in Welsh/English if you require it. You should apply immediately to [the Clerk of the Magistrates' Court][1] (*address*).....
.....]

[1] If a person other than a clerk of a magistrates' court is responsible for serving or giving the document, insert instead that person's name.

EXPLANATORY NOTE

(This Note is not part of the Rules.)

These Rules provide for the use of Welsh forms in connection with proceedings in magistrates' courts in Wales and Monmouthshire. They include provision authorising the use of bilingual forms in connection with such proceedings and provide that in certain cases a person served with a form in one language may require the form in the other language.